hafal

Adolygiad Blynyddol 2008-2009



Cyflwyno mwy yn 2008-2009

Os ydych chi'n credu bod yr Adolygiad Blynyddol yn edrych yn dda eleni, mae'r diolch am hynny i sgiliau ffotograffiaeth gwych ein cleientiaid, gofalwyr ac Aelodau. Cafodd yr holl brif luniau eu tynnu fel rhan o'n hymgyrch hynod lwyddiannus "Ydych chi wedi Clicio?" yn 2008. Hon oedd ein hymgyrch gwrth stigma fwyaf hyd yma. Cafodd dros 100,000 o daflenni eu dosbarthu i'r cyhoedd yn rhoi cynllun pum pwynt syml iddynt ar gyfer delio â stigma. Cynhaliwyd arddangosfeydd a gweithdai ffotograffiaeth ym mhob un o'r 22 sir a chafodd y delweddau gan ein haelodau a'n cleientiaid eu dangos ar raglen am:pm BBC2, ar bbc.co.uk ac ar y sgriniau mawr yn Abertawe a Chaerdydd, yn ogystal â chael eu harddangos yn y Senedd. 2008-2009 oedd y flwyddyn y llwyddom i brofi pa mor effeithiol ydym ni fel sefydliad ymgyrchu ar lefel genedlaethol! Ewch i dudalen 7 i gael gweld rhai o'r enwogion a'r gwleidyddion a ddaeth i'n stondin "Ydych chi wedi Clicio?" yn y Sioe Frenhinol, a chadwch olwg allan am fwy o ymgyrchu ar lein ac ar y teledu yn ystod 2009 a 2010!

Mae'n bleser gen i adrodd bod gwaith Hafal ledled Cymru yn 2008-2009, wedi parhau i ddatblygu, a hynny er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd anodd, a bod hyd yn oed mwy o bobl gydag afiechyd meddwl difrifol wedi cael cefnogaeth i fyw'n annibynnol ac i gyflawni eu nodau a'u targedau. Mae'r datblygiadau newydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwasanaeth hyfforddi cyflogaeth newydd yng Nghaerdydd, gwasanaeth cefnogaeth tai newydd yn Sir Ddinbych ac adeiladau newydd modern yn Llanrwst a Phort Talbot. Cafwyd datblygiadau sylweddol hefyd yn y modd y byddwn yn cyflwyno hyfforddiant (gweler tudalen 5) ac o ran cyhoeddi arweiniadau allweddol ar gyfer rhai o'n cynulleidfaoedd mwyaf bregus (gweler tudalen 6).

Fel ag erioed, y llwyddiannau mwyaf yn ystod 2008-2009 oedd y camau a gymerwyd tuag at adferiad a gwellhad gan ein cleientiaid. Dywedir bod stori ym mhob darlun a'r hyn a welir yn y darluniau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn yw hanes pobl gydag afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr ledled Cymru, yn creu gweledigaeth gadarnhaol ac yn anelu am y gorau mewn bywyd. Maent yn destament i ddatblygiadau a llwyddiannau cleientiaid Hafal yn ystod 2008-2009.

– Peter Davey
Cadeirydd, Hafal

Mynegi fy marn yn CCB 2008!

Cyflwyno ein gwasanaethau

Yn ystod 2008-2009 cyflwynodd Hafal amrywiaeth gynyddol o wasanaethau i'w 1,000+ o gleientiaid yn y 22 o siroedd ar draws Cymru. Dros y flwyddyn, bu Hafal yn cefnogi mwy o gleientiaid nag erioed yn ei 66 o brosiectau lleoli i gyflawni eu dyheadau a chyrraedd eu targedau o ran adferiad.

Cyfleoedd newydd

Yn 2008-2009, buom yn canolbwyntio ar ymestyn ein gwasanaethau i grwpiau sy'n arbennig o fregus. Yn 2008 derbyniwyd grant o bron £300,000 gan y Lloyds TSB Foundation i ariannu gwasanaeth adsefydlu a chefnogaeth ar gyfer **carcharorion benywaidd sydd â phroblemau iechyd meddwl**. Mae Hafal bellach wedi recriwtio dau Weithiwr Prosiect fydd yn cynnig gwasanaeth cefnogi mewnol ac wedi rhyddhad i ferched mewn carchardai o fis Awst 2009 ymlaen.

Mae Hafal hefyd wedi sicrhau £50,000 o nawdd gan y Pfizer UK Foundation er mwyn cychwyn prosiect prawf blwyddyn o hyd fydd yn ceisio helpu **pobl ifanc gyda phroblemau meddyliol difrifol** yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd y prosiect, fydd yn dechrau yn ystod 2009, yn mynd i'r afael â'r anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc yn yr ardal wrth drosglwyddo o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Oedolion. Mae hwn yn faes gwaith yr ydym yn gobeithio ei ehangu i ardaloedd eraill yn y dyfodol.

Mae'r £1.5 miliwn a ddyfarnwyd i Hafal gan y Gronfa Loteri Fawr yn 2008 wedi sicrhau swyddi i bedwar aelod o staff newydd sy'n rhoi cefnogaeth i **droseddwyr gydag anhwylderau meddyliol** i gael gafael ar wasanaethau addas, a thri chydlynydd cyflogaeth newydd sy'n cefnogi **cleientiaid sy'n dychwelyd i weithio**. Cadwch olwg ar y newyddion diweddaraf am y prosiectau cyffrous yma ar **www.hafal.org**!

O amgylch Cymru

Mae Prosiectau o bob rhan o Gymru wedi cyflawni cymaint yn ystod 2008-2009 fel na allwn ni fynd ati i son amdanynt i gyd!! Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn a aeth heibio...

- **Hafal Caerdydd:** mae caffi newydd yn seiliedig ar fodel cwmni cymdeithasol, Pen Diner, wedi agor yng Nghanolfan Jasmine, Trelái. Mae'r caffi eisoes yn boblogaidd iawn ymysg y cyhoedd ac mae'n cynnig hyfforddiant cyflogaeth gwerthfawr i gleientiaid Hafal ym meysydd arlwyo, lletygarwch, a rhedeg busnes.
- **Hafal Pen-y-bont ar Ogwr:** buont yn gweithio gyda gofalwyr i gynorthwyo Gwasanaeth Heddlu De Cymru i ddatblygu ffilm hyfforddi sydd wedi'i chynllunio i wella dealltwriaeth yr heddlu o salwch meddwl. Bydd y DVD nawr yn cael ei ddefnyddio wrth hyfforddi'r heddlu drwy gydol Cymru.
- **Hafal Sir Ddinbych:** Enillodd eu prosiect ACTS (Cefnogaeth Aciwt i Denantiaid) gytundeb dwy flynedd i gynnig gwasanaethau cefnogaeth tai i bobl sy'n cael eu rhyddhau o ysbyty ac sydd angen sefydlu a chryfhau eu tenantiaeth, a hefyd i gynnig cefnogaeth ddwys mewn argyfwng i bobl sy'n byw yn y gymuned sydd ag afiechyd meddwl a allai fod yn fygythiad i'w tenantiaeth.
- **Hafal Sir Benfro:** cawsant eu henwebu am Wobr Ysbrydoli gan Goleg Penfro mewn cydnabyddiaeth o'u rôl wrth hybu a hwyluso amrywiaeth o gyrsiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a hynny mewn cydweithrediad â Phrosiect Addysg a Hyfforddiant Penfro (PET), gan gynnwys hyfforddiant mewn TG, ffotograffiaeth ac adeiladu hyder.
- Bu'r Maer Gordon Williams yn agor adeilad **Hafal Llanrwst** ar ei newydd wedd, a'i fynedfa newydd i gadeiriau olwyn, ym mis Rhagfyr. Mae gan y prosiect gegin, ystafell weithgareddau, ystafell gyfrifiaduron, swyddfa ar gyfer y staff ac ardal Tai Chi. Bydd yr adeilad yn fan cyfarfod ar gyfer grŵp gofalwyr gwledig newydd.
- Yn ogystal â chychwyn amrywiaeth o weithgareddau newydd, gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg a sesiynau coginio'n iach, agorodd **Hafal Castell-nedd Port Talbot** adeilad newydd fydd yn gartref i brosiect hyfforddi cyflogaeth.
- Cafodd gwasanaeth tai craidd a chlwstwr newydd ym **Mhen-y-bont ar Ogwr** ei gleient cyntaf, gan gynrychioli naid fawr ymlaen i wasanaethau tai yn yr ardal.
- Prynodd Hafal adeilad Tŷ Aman ar gyfer ein prosiect yn **Rhydaman**, sy'n fuddsoddiad pwysig iawn yng ngwasanaethau'r dyfodol yn Sir Gaerfyrddin.
- Cynhaliodd Hafal ddau ddiwrnod o hyfforddi ar gyfer gofalwyr ar "Sgiliau Cyfweld". Cwblhaodd chwe gofalwr y cwrs, gan roi eu henwau ar gofrestr o ofalwyr sydd ar gael i eistedd ar baneli cyfweld ar draws y gwasanaethau statudol a gwirfoddol yng **Ngwynedd** ac **Ynys Môn**.

I weld y datblygiadau diweddaraf, ewch i www.hafal.org!

Cyflwyno ein harbenigedd

Ehangodd Canolfan Dysgu Hafal Learning Centre ei orwelion yn sylweddol yn ystod 2008-2009, gan gyflwyno ei hyfforddiant i gynulleidfa ehangach yn fewnol ac yn allanol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd bron hanner y staff yn gweithio tuag at ddyfarniadau NVQ gyda Hafal – mwy nag erioed o'r blaen. Rydym hefyd yn cydweithio gyda dau goleg i gefnogi 18 aelod arall o staff yn eu hymdrechion i gwblhau dyfarniadau (cymwysterau A1 a dyfarniadau NVQ Lefel 3). Dywedodd Irene Hogan, Pennaeth Canolfan Dysgu Hafal: "Rydym wedi cael ymateb gwych i'r rhaglenni a gynigiwyd yn ystod 2008-2009. Bob wythnos, mae staff o bob rhan o Gymru wedi bod yn ennill sgiliau a chymwysterau newydd"

Yn 2008, cafodd Hafal eu cymeradwyo gan y **Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth** (ILM) fel canolfan a all ddyfarnu gwobrau, tystysgrifau a diplomau Lefel 3 ILM. Mae hyn yn dipyn o gamp, a ddaeth ar ddiwedd cyfnod ymgeisio o naw mis. Mae'n golygu y gall Hafal nawr ddyfarnu cymwysterau rheoli sy'n seiliedig ar wybodaeth ac a gydnabyddir yn rhyngwladol. Fel y dywedodd Irene; "Mae'n ychwanegu dimensiwn newydd i'n rhaglen hyfforddi ac yn rhoi agwedd newydd i'r hyn y gallwn ei gynnig i staff."

Mae enw da'r Ganolfan fel darparwr hyfforddiant o safon i sefydliadau allanol hefyd yn parhau i gynyddu. Yn 2009, cynigiodd y Ganolfan hyfforddiant preswyl i'r Regard Partnership, sefydliad mawr o'r sector preifat sy'n cynnig gofal a chefnogaeth i bobl ledled Cymru a Lloegr sy'n dioddef anableddau dysgu a/neu salwch meddyliol. Helpodd yr hyfforddiant i hysbysu ethos y sefydliad a'u cefnogi i ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at adferiad.

Ar ôl cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru, a'i gwnaeth yn orfodol – a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i ymgyrch "Blog Jo" Hafal – i gynnig cynllun gofal naw pwynt i gleifion sy'n rhoi "Ystyriaeth i'r Person Cyfan", mae Hafal hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant allweddol ar weithredu ein Rhaglen Adferiad i wasanaethau statudol, gwasanaethau diogelwch isel, a Gwasanaethau Erlid y Goron.

Mae datblygiadau eraill wedi cynnwys cynnydd yn nifer y partneriaethau gyda cholegau a phrifysgolion a nifer cynyddol o fyfyrwyr yn cael eu lleoli gyda Hafal. Mae ein hyfforddwyr defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn parhau i gynnig safbwynt amhrisiadwy'r claf arbenigol i'n cleientiaid, gan danategu ein gwasanaeth gyda'r hyn y gellir ei ddysgu o brofiadau bywyd go iawn.

Gallwch ddysgu mwy am Ganolfan Dysgu Hafal yn www.hafal.org

Cyflwyno ein neges

Bu gwaith Materion Cyhoeddus Hafal yn ystod 2008-2009 yn canolbwyntio ar gyflwyno agwedd y claf i'r cyhoedd a'r gwneuthurwyr polisi:

- Daeth Seminar Gwanwyn Hafal ar gyfer 2008, "**Beth mae Defnyddwyr ei Eisiau**" â defnyddwyr gwasanaethau, gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl at ei gilydd i archwilio sut y gallwn, gyda'n gilydd, wneud i bolisi ac arfer weithio yn dda ar gyfer y defnyddwyr unigol. Roedd y prif gyfranwyr yn cynnwys yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol a Suzanne Vogel-Scibilia MD, Athro Cysylltiol Seiciatreg a llywydd blaenorol Cynghrair Iechyd Meddwl Cenedlaethol yr UDA. O ganlyniad i'r Seminar a digwyddiadau eraill a gynhaliwyd yn ystod 2008, cyhoeddodd Hafal ***Gwerthoedd Newydd*** – ***Arferion Newydd*** yn 2009, sef adroddiad sy'n gosod awgrymiadau ymarferol i ddarparwyr a chomisiynwyr ar gyfer cynllunio gwasanaethau sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r defnyddwyr.

- Yn ystod haf 2008, ymatebodd dros 250 o Aelodau Hafal i'n ymgynghoriad ar strwythur y GIG, ac roedd hyn yn dilyn y 450 o ymatebion a gafwyd i'n ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru yn ystod gaeaf 2007-2008. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn parhau i sefydlu ein henw da fel **llais i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng Nghymru**.
- Yn haf 2008, cafodd yr arweiniad arloesol ***Arweiniad Goroesi Cyfiawnder Troseddol*** ei gyhoeddi, sy'n cynnig cymorth i bobl gydag afiechyd meddwl difrifol sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hwn yn gyhoeddiad pwysig iawn, sy'n cynnig cefnogaeth allweddol i grŵp bregus iawn o bobl.

- Mae sylw yn y wasg a'r cyfryngau wedi cynnwys eitemau ar raglenni ***am:pm***, ***Week in Week Out*** y BBC, ***Wales Tonight*** ar ITV, ***Good Evening Wales*** ac ***Eye on Wales*** ar BBC Radio Wales, newyddion Radio Cymru, Real Radio, y Western Mail a nifer o gyfryngau lleol.
- Cafodd dwy wefan Hafal, **www.hafal.org** a **www.iechydmeddwlcymru.net**, eu hailgynllunio, eu hadolygu a'u hail-lansio yn 2008, gan gynnig sianeli gwybodaeth mwy modern a chyfoes i ddefnyddwyr.
- Bu cynrychiolwyr Hafal yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor eLCO (Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol) – Darpariaeth Arfaethedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Llywodraeth y Cynulliad yn y Senedd yn 2008. Bu ein Hywel Dda ni ein hunain yn llywyddu dros stondin yr Eisteddfod yn 2008 er mwyn nodi gwaith y Cynulliad wrth ddatblygu'r deddfau iechyd meddwl newydd ar gyfer Cymru – y cyntaf mewn 11 canrif!

Am y diweddaraf, ewch i www.hafal.org

Ydych chi wedi Clicio?

Uchafbwynt y flwyddyn ymgyrchu oedd "Ydych chi wedi Clicio?" – ymgyrch genedlaethol fu'n cynnig gwybodaeth i'r cyhoedd am fynd i'r afael â stigma ac yn casglu delweddau ffotograffig gwych o bob rhan o'r wlad. Ein nod? Chwalu'r rhwystrau ac annog pobl i gael ychydig o hwyl.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys:

- **22 o ddigwyddiadau sirol** ar draws y wlad, gydag arddangosfeydd a gweithdai ffotograffiaeth yn rhoi cyfle i gleientiaid, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd fod yn greadigol ac i ddysgu sgiliau newydd.

- **Lansio'r ymgyrch genedlaethol** yn y Sioe Frenhinol, ble y cafodd ein stondin "Ydych chi wedi Clicio?" ei hymweld gan nifer o sêr a gwleidyddion Cymru, gan gynnwys Derek a Scott Quinell, Stuart Cable, Derek Brockway, Lembit Opik AS a Jamie Owen. Roedd y stondin yn rhoi cyfle i ymwelwyr y sioe glicio a defnyddio camerâu o'r dechnoleg ddiweddaraf a chyfle i gael awgrymiadau am sut i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

- Cafodd **arddangosfa** o ddelweddau o'r ymgyrch ei gosod yn y Senedd ym mis Hydref i ddathlu Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd yr arddangosfa, a lansiwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AS, yn destun eitem ar raglen am:pm y BBC a sioe sleidiau ar www.bbc.co.uk. Cafodd rhai o luniau gorau'r ymgyrch hefyd eu harddangos ar sgriniau mawr y BBC yng nghanol dinasoedd Caerdydd ac Abertawe.

- Cafodd **dros 100,000** o daflenni "Ydych chi wedi Clicio?" eu dosbarthu dros Gymru. Roedd y taflenni'n cyflwyno cynllun pum pwynt i'r cyhoedd ar gyfer delio â stigma a rhoi cefnogaeth i bobl gydag afiechyd meddwl difrifol.

- **Gwefan "Ydych chi wedi Clicio?"** yn cynnwys dros 250 o ddelweddau o bob rhan o Gymru. I gael gweld y delweddau, ewch i: **www.hafal.org/hafal/cymraeg/clic.php**

Cadwch olwg ar* www.hafal.org *am newyddion am ein hymgyrchoedd yn 2009!

diolch!

Mae Hafal yn ddiolchgar i'r noddwyr canlynol am eu cefnogaeth yn ystod 2008/2009...

AstraZeneca Ltd.
Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent
Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd
Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili
Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion
Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
Bwrdd Iechyd Lleol Gaerfyrddin
Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful
Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint
Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam
Comic Relief
Corus
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Dinas a Sir Abertawe
Eli Lilly and Company
GAVO
Heddlu Gwent
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ludlow Street Healthcare Group
Mentro Allan
Partneriaethau mewn Gofal
Prosiect Partneriaeth Iechyd Meddwl Oedolion Conwy a Sir Ddinbych
Rekindle Home
Revolving Doors Agency
Seiri Rhyddion Sir Benfro
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
St Luke's Hospital
Surehaven
Tîm Cymunedol Barclays
Y Gronfa Loteri Fawr
Y Lloyds TSB Foundation ar gyfer Cymru a Lloegr
Ymddiriedolaeth Elusennol Heinz
Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ysbyty Kneesworth House

...ac i bawb a roddodd yn hael yn ariannol neu o'u hamser, diolch!

Hafal Ystafell C2, Tŷ William Knox,
Ffordd Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6EL
Ffôn: 01792 816 600 **Ffacs:** 01792 813 056 **E-bost:** hafal@hafal.org
Elusen gofrestredig rhif. 1093747 Cwmni cofrestredig rhif. 4504443

www.hafal.org